# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD MAWRTH, 10 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jones-Pritchard(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ford, Goddard, Goodway, Kelloway, Naughton, Sandrey a/ac Wong |

## 38 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Burke-Davies, Ebrahim, McKerlich a Murphy.

## 39 : CADEIRYDD, AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2017, y penodwyd y Cynghorydd Mike Jones-Pritchard yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn a bod yr Aelodaeth fel a ganlyn:

Y Cynghorwyr Burke- Davies, Ebrahim, Ford, Goddard, Goodway, Jones-Pritchard, Kelloway, McKerlich, Murphy, Naughton, Sandrey, Singh a Wong

Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn: -

- Ymgymryd â swyddogaeth yr awdurdod lleol o ran penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd;

- Adolygu staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau'r swydd;

- Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, ar gyfer y Cyngor llawn mewn perthynas â'r materion hyn.

## 40 : DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am eu cyfrifoldeb dan Ran III Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant yn gyffredinol ac i lenwi ffurflenni buddiant personol ar ddechrau'r cyfarfod ac yna, cyn dechrau'r drafodaeth ar yr eitem dan sylw, nodi a yw'n fuddiant personol neu ragfarnus. Os mai buddiant rhagfarnus yw e, gofynnir i Aelodau adael y cyfarfod ac os mai buddiant personol yw e gwahoddir i Aelodau aros, siarad a phleidleisio.

## 41 : COFNODION

Nodi cofnodion y cyfarfod ar 8 Mawrth 2017.

## 42 : GWASANAETHAU AELODAU - STRWYTHUR, GWASANAETHAU A CHEFNOGAETH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad trosolwg yn unol â chylch gorchwyl y Pwyllgor ar y strwythur presennol a'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan y Cyngor i Aelodau Etholedig.

Tynnwyd sylw Aelodau at y cynnig Cabinet ers 21 Medi 2017 ar gyfer swydd newydd i ddileu rôl statudol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai'r swydd yn cael ei chreu o fewn yr adnoddau presennol ar lefel OM1, a cheisiwyd eu barn ar gynnwys y Disgrifiad Swydd a'r Fanyleb Person yn Atodiad A yr adroddiad.

Gwnaeth y Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar fanyleb person y swydd a gofynion penodol y swydd aml-ddisgyblaethol hon yn ymwneud â'r Gwasanaethau Etholiadol, Craffu a Democrataidd. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod y swydd yn rhan o drefniadau uwch dîm rheoli newydd. Nododd yr Aelodau bod y strwythur uwch dîm rheoli arfaethedig am fod yn gost-niwtral.

Trafododd y Pwyllgor y Rhaglen Sefydlu a Dysgu i Aelodau; sesiynau oedd wedi'u dynodi fel hyfforddiant hanfodol; cyfleoedd cenedlaethol a rhanbarthol - gan gynnwys digwyddiad Sefydlu Rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i unrhyw Gynghorwyr newydd a Chynghorwyr yn dychwelyd; gan dderbyn gwybodaeth o rwydweithiau llywodraethu amrywiol.

Roedd gan y Pwyllgor ystod o farn ar yr elfennau hanfodol ar y rhaglen. Cydnabyddir fod gan bob Cynghorydd ddyletswydd statudol i gydymffurfio â deddfwriaeth bresennol - er enghraifft fel Rheolwyr Data a Rhieni Corfforaethol. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i adolygu dynodiad y sesiynau hanfodol a gytunwyd gan y Pwyllgor blaenorol ym mis Mawrth 2017.

Nododd y Pwyllgor y rhaglen barhaus a'r testunau fyddai'n cael eu rhaglennu.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r Arolwg Aelodau Hydref 2017 drafft, Eitem 6 i'w hystyried yn y cyfarfod hwn, yn cynnwys bocsys testun i alluogi adborth ar y sesiynau sefydlu, yr hyfforddiant hanfodol a sesiynau eraill. Roedd Aelodau o'r farn y dylai'r ffurflenni adborth gael eu cynnig ar ddiwedd pob digwyddiad fel arfer gorau. Awgrymwyd y byddai hyn yn gallu bod ar ffurf electronig. Nodwyd bod rhai o'r sesiynau hanfodol ar gyfer Cynghorwyr newydd yn unig.

Nododd y Pwyllgor bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd ag adolygiad cenedlaethol o Drosolwg a Chraffu ac effaith y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol ar waith y Pwyllgor gan gynnwys craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda'r nod o hwyluso gwelliannau a rhannu arfer da.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol drafft y Panel Tâl Annibynnol Cymru (PTAC) a gyhoeddwyd ar 4 Hydref 2017 a'i ystyried. Er mwyn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 roedd gofyn i'r PTAC gyhoeddi ei adroddiad erbyn 28 Chwefror 2018. Roedd angen i sylwadau Awdurdodau Lleol gael eu cyflwyno erbyn 29 Tachwedd 2017.

PENDERFYNWYD –

1. cymeradwyo'r Disgrifiad Swydd a'r Manyleb Person drafft ar gyfer swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;

2. nodi’r Rhaglen Dysgu a Datblygu fel y’i nodwyd yn Atodiad D;

3. cytunwyd y dylid adolygu’r testunau hynny a nodir yn hanfodol yn y cyfarfod nesaf;

4. nodi’r adroddiad drafft gan Banel Tâl Annibynnol Cymru a’r newidiadau drafft.

Nid oedd y Pwyllgor yn dymuno ateb i’r ymgynghoriad hwn.

## 43 : AROLWG AELODAU 2017

Ystyriodd y Pwyllgor y fformat a'r cwestiynau a nodwyd yn Arolwg Aelodau 2017 drafft oedd wedi'i gomisiynu fel dilyniant i'r Arolwg Aelodau yn Gadael Cyngor Caerdydd a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2017, gan gynnig eu sylwadau, a oedd hefyd yn cynnwys cwestiynau cymharu o Arolwg Blynyddol Aelodau y llynedd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2017, mewn perthynas â gwasanaethau cymorth i Gynghorwyr.

Byddai’r arolwg ar gael yn electronig ac ar ffurf copi caled i Gynghorwyr ym mis Tachwedd a byddai’r canlyniadau’n cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn yn y flwyddyn newydd.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i’r arolwg drafod adborth ar yr hyfforddiant a gynigiwyd hyd yn hyn, gwybodaeth ar anghenion hyfforddiant i'r dyfodol, gan ofyn pe byddai modd gwaredu Cwestiwn 17 yn ymwneud â chymorth gan Grwpiau Parti. Nodwyd bod Cwestiynau 19-26 yn gwestiynau a holwyd yn yr Arolwg Aelodau yn Gadael ac y byddai’r canlyniadau a’r wybodaeth gymharol yn cael eu hadrodd yn ôl i’r Pwyllgor Safonau a Moeseg ym mis Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD –

1. cytuno ar yr Arolwg Aelodau Drafft yn amodol ar newidiadau teipio yn amodol ar waredu cwestiwn 17 uchod.
2. nodwyd y byddai dadansoddiad o'r cwestiynau oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn yr Arolwg Aelodau 2017 yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

## 44 : CYNLLUN GWAITH Y CYNGOR AC AMLDER CYFARFODYDD

Trafododd y Pwyllgor ei rôl a’i gylch gwaith a phwysigrwydd y broses ddemocrataidd a'r swyddogaethau statudol oedd yn ofynnol o'r Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnal llywodraethu da a gwneud penderfyniadau. Nodwyd bod pwysau cyllidebol yn dal yn berthnasol i bob Cyfarwyddiaeth, a bod y timau llywodraethu wedi cyflawni effeithlonrwydd dros y 5 mlynedd ddiwethaf – yn unol â’r gofynion statudol a deddfwriaeth sydd angen i’r Cyngor a’r Gyfarwyddiaeth eu cynnal.

Roedd y Pwyllgor yn unfrydol yn credu bod democratiaeth yn costio ac mai blaenoriaeth y Pwyllgor oedd sicrhau nad oedd llywodraethu ac enw da'r Cyngor, ei Gynghorwyr a'i swyddogaethau penderfynu a chraffu, mewn perygl drwy herio

arbedion pellach fydd yn effeithio ar y prosesau democrataidd, gwneud penderfyniadau a chymorth i Aelodau Etholedig.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd ac yn ystyried

- canlyniadau Arolwg Aelodau'r hydref 2017;
- Diweddariad am Raglen Ddysgu'r Cyngor;
- Diweddariad am y Gwasanaethau Aelodau.

PENDERFYNWYD –

1. y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor fel arweinydd portffolio Llywodraethu a'r Gwasanaethau Democrataidd yn trafod sylwadau'r Pwyllgorau ar gost democratiaeth gan ofyn na fyddai unrhyw dargedau arbedion cyllidebol pellach yn berthnasol i'r gwasanaethau hyn yn ystod y weinyddiaeth bresennol.

2. y byddai dyddiad yn cael ei gytuno ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 18.35)*

Cadeirydd: ______________________

Dyddiad: _______________